

Ffynnon Bistyll Tal-y-Bont

Gan Erin a Callum Bl.6



Cafodd y Ffynnon Bistyll ei hadeiladu yn 1854 gan Edward Gordon Douglas Pennant.

Yn ystod cyfnod Douglas Pennant, roedd y rheini a allai fforddio tai a chartiau yn eu defnyddio i deithio i bobman, ond roedd yn rhaid iddynt adael i'w ceffylau gael gorffwys, felly, roddent yn defnyddio'r Ffynnon Bistyll er mwyn i'r ceffylau gael diod a gorffwys.

Bu Blwyddyn 5/6 yn gwneud llawer o waith ymchwil ar y Ffynnon Bistyll ac ynghylch pobl enwog a digwyddiadau yn 1854.

Diolch i Holly, a wnaeth lawer o waith ymchwil gartref ynghylch llawer o bobl enwog, oedd yn byw yn ystod y cyfnod hwnnw megis,

Artistiaid, Beirdd, Awduron a'r Frenhines ar yr adeg honno, sef Brenhines Fictoria.

Ganed y Frenhines Victoria yn 1819 a bu farw yn 1901. Bu iddi deyrnasu am 64 mlynedd - hi yw'r un sydd wedi teyrnasu hwyaf hyd yn hyn!

Priododd Albert o Saxe Coberg Gotha, ond bu farw tua hanner ffordd trwy ei theyrnasiad gan ei gadael mewn galar weddill ei bywyd.

Roedd Alfred Lord Tennyson yn fardd adnabyddus iawn o amgylch 1854. Un o'i ddarnau enwocaf oedd The Lady of Shalott.

The Lady of Shalott oedd chwedl gwraig ddirgel a gafodd ei charcharu ar ynys Shalott. Ysgrifennodd hefyd The Charge of the Light Brigade (gweler isod).



Alfred Lord Tennyson



Jean Francois Millet (a yngenir Jon Mill-e) yn artist talentog iawn ond amaethu oedd ei alwedigaeth gyntaf cyn darganfod ei ddawn fel artist.

Roedd y rhan fwyaf o ddarluniau Millet yn rhai o amaethu wrth iddo dyfu i fyny ym myd amaeth, ac er ei fod wedi marw, delir i brynu ei ddarluniau

Jean Francois Millet

Wedi ymlâdd, dadhydredig,
Yn teimlo'n chwil ac yn flin
Chwilboeth a dan straen,
Tair o ferched difendith,
Mewn dillad a hetiau carpiog,
Weithiau'n **llewygu**,
Heb ddŵr ac yn druenus,
Yn dod a'r corn adref,
Yn rhy flinedig i gysgu,
Clywed defaid yn brefu,
Teisi a byrnau o yd,
"Cefais ddiwrnod blinedig"
Yn gwisgo carpiâu yn y gwres chwilboeth,
Peidio â mentro bwyta unrhyw wenith.

Yr arglwyddi ac'r arglwyddesau yn gwyllo,
Yn yfed lemonad,
Ac yn cysgu mewn cadeiriau breichiau mawr.

Ffermwyr yn ffermio,
Lloffwyr yn lloffa,
Dim yn mentro bwyta'r
Gwenith sy'n blasu'n hyfryd.
Yn cynllunio ffoi,
Pennau'n dyrnu gyda'r gwres.

eglurhad - **du fel mewn llewygiadau**

Dyma ddarlun enwocaf Jean Francois Millet:

Y Lloffwyr, a ysbrydolodd Heddwyn i lunio'r gerdd hon.




Cerddor enwog o'r 19eg oedd Franz Liszt.

Roedd y rhan fwyaf o'i gyfansoddiadau ar gyfer y piano. Un o'i ddarnau enwocaf yw The Loreley yn seiliedig ar farddoniaeth gan Heine (yngenor Hi-ner)

Cafodd y darn hwn ei gyfansoddi ar gyfer y llais a'r piano. Ysbrydolodd y gerddoriaeth hon Abby W i ysgrifennu'r stori hon ynghylch The Loreley.



Ysbrydion Meirw Afon y Loreley



Franz Liszt


Eisteddai'r ar y creigiau caled, gan gribu ei gwallt hir euraid gyda chrib aur, a'r haul yn disgleirio ar ei dillad prydfferth. Lawr islaw'r creigiau creigiog, roedd yr afon Rhine, yn llawn o forwyr marw a llongau'n pydru, yn rhoi gwên ar wyneb prydfferth Loreley. Roedd yn awyrgylch anarferol, sef o gasineb, drygioni, tristwch ac un cwestiwn - Pam?

Yn y pellter, gweloedd faner, hwyl a llong. Hon oedd yr ennyd roedd wedi ei hofni. Gwenodd y Loreley a dechrau canu. Nid oedd geiriau i allu disgrifio'r llais prydfferth yn llawn o nodau euraid. Tynnodd y llong ymlaen gyda'i llais grymus, gan ei hudo i ffwrdd oddi wrth ei thaith, a'i hudo i farwolaeth. Daeth yn nes ac yn nes nes ei bod yn ddigon agos i'r cychwr edrych i fyny, a gweld wyneb hudolus y Loreley. Yna, galwadau am help -----

Gan Abi W

Charles Kingsley oedd un o awdurdon enwocaf y 19eg, ef oedd awdur *The Water Babies* a *Westward Ho*. Cafodd ei eni yr un flwyddyn a'r Frenhines Victoria, 1819 a bu farw yn 1875. Mae *Blwyddyn 6* wedi darllen y tudalen gyntaf o *The Water babies*, sydd wedi ysbrydoli Paige i ysgrifennu am Tom, plentyn sy'n gorfod gweithio am ei fywoliaeth a Nicholas a ysgrifennodd sut mae ein bywydau ni y dyddiau hyn yn llawer haws a mwy diogel nag oedd bywydau plant yn oes Fictoria.

Roedd Tom yn hapus pan oedd yn taflu dimeiau gyda'i gyfeillion, yn neidio dros y potiau, neu'n taflu cerrig at goesau'r ceffylau, oedd yn llawer o hwyl gan gallai guddio tu ôl i'r wal. Edrychai ymlaen at y dyfodol gan y byddai yn ddyn, ac yn ben ysgubwr simneiau, ac yn cadw ci tarw gwyn ac yn cludo ei chŵn bach yn ei boced.



Charles Kingsley

Yr hyn oedd yn tristau Tom oedd y byddai'n gwneud llawer o arian ond a fyddai yn cael ei wario gan ei feistr, pan oedd yn rhaid iddo ddringo'r cynn simneiau tywyll, gyda'i feistr yn ei guro bob dydd o'r wythnos, a phan ai huddug i'w lygaid, ac nad oedd ganddo lawer i'w fwyta bob dydd o'r wythnos.

Mae bywyd wedi newid ers oes Fictoria i fechgyn gan bod bechgyn bellach yn derbyn gwell addysg, mwy o fwyd, gweithgareddau sy'n hwyl, peidio â chael eu curo bob dydd, dillad cynnes gwell, teuluoedd hyfryd a gwell bywyd.

Gan Paige

Mae bywyd wedi newid gan bod caethwasiaeth bellach yn anghyfreithlon, mae bywyd yn fwy diogel gan nad oes raid i chi ddringo simneiau, na gwneud gwaith peryglus. Ewch i'r ysgol, cael addysg iawn, a gallwch gael bath neu gawod a bywyd blasus.

Gan Nicholas



**Florence Nightingale
[Rhyfel Crimea]**


Roedd Florence Nightingale yn nyrs yn ystod Rhyfel y Crimea, er gwaethaf ymdrechion ei rhieni i ymyrryd yn ei dewis o waith, gan gynnig llawer o arian iddi gyflawni yr hyn roddent yn ei galw yn "swydd synhwyrol". Roedd Florence Nightingale yn arfer cael ei galw yn The Lady of the Lamp oherwydd y troeon yr arferai gerdded o amgylch yr ysbytai, gan gario llusern, i gael golwg ar y milwyr oedd wedi eu hanafu. Dyma ddisgrifiad Henry o Ryfel y Crimea.

Cymerodd y rhyfel le yn nhalaith ogleddol yr Ymerodraeth Ottoman. Brwydr Balaclava oedd un o'r bwrydrau enwocaf. Daeth y Prydeinwyr a'r Ffrancwyr i gefnogi eu cynghreiriaid, y Twrciaid Ottoman yn dilyn ymosodiad annisgwyl gan y Rwsiaid. Caed tair is-frwydr, The Thin Red Line, The Charge of the Heavy Brigade, a'r enwocaf ohonynt oll, The Charge of the Light Brigade.

Dyma linellau agoriadol y gerdd a ysgrifennodd Alfred Lord Tennyson am The Charge of the Light Brigade.

1854 Darlun o Ddyffryn Marwolaeth.

**Half a league, half a league,
Half a league onward,
All in the valley of Death
Rode the six hundred:
'Forward, the Light Brigade!
Charge for the guns' he said:
Into the valley of Death
Rode the six hundred.**





Afon Ogwen

Dyma'r Afon Ogwen, sy'n llifo wrth ochr y Ffynnon Bistyll bu Bl 6 yn ymchwilio iddi. Maent hefyd wedi bod yn astudio ei tharddiad, sef Llyn Ogwen. Mae sawl disgybl wedi ysgrifennu am Llyn Ogwen a'r tirwedd o'i amgylch.



Llyn Ogwen



Mae Llyn Ogwen yn disgleirio yn yr haul ac yn adlewyrchu prydfferthwch yr awyr uwchben. Pan mae'r awyr yn dywyll, mae'r dŵr sy'n disgleirio islaw yn troi'n dywyll ac yn llwyd. Mae'r dŵr yn adlewyrchu'r mynyddoedd sy'n ymrithio o'r ddaear yn y pellter. Yn arglwyddiaethu dros y tirwedd, mae'r mynyddoedd yn codi'n uchel uwchben y llyn. I fyny yno, gellir gweld un o'r golygfeydd mwyaf syfrdanol o'r cyfan. Gall dirgelwch y dyfroedd dyfnion isod eich syfrdanu o graffu'n agos. Mae'r tirwedd dramatig sy'n amgylchynu'r llyn yn adfywio unrhyw un sy'n edrych arno. Ac unwaith y dechreuwch rythu ar y gofod heddychlon, eang, agored, byddwch yn sylweddoli peth mor anhygoel yw natur.

Gan Catherine.

Mae'r mynyddoedd sy'n codi yn arglwyddiaethu dros Llyn Ogwen enfawr. Mae'r cysgod sy'n cael ei daflu gan y mynyddoedd, yn disgleirio'n wan ar yr arwyneb, o'r llyn grisial. Safwch ar y mynyddoedd a gweld golygfa syfrdanol o naill ai'r llyn sy'n disgleirio neu'r tirwedd heddychlon. Ond syllwch ar y llyn yn y nos a chewch eich syfrdanu gan y newid o arwyneb eglur grisial, yn disgleirio yn yr haul, i gorff enfawr o ddwr du, ond peidiwch a bod ofn, ni ddigwydd hynny ond yn y nos. Ond yn y dydd, i oedolion, mae taith ar gwch yn ymlaciol ac yn heddychlon, gan lithro ar hyd y llyn, ond i blant bach, mae'n gyfle i wlychu!!!

Gan Erin.